# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Hannah Mefin**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom,
**Nos Iau 23 o Hydref 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gareth Williams
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Bethan Roberts
Y Cynghorydd Lowri Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Cyng. Mary Hayes

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Huw Jones, Beca Roberts

2. **Datganiad o Ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 o Fedi yn Mynydd Llandygai

## Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 **Seddi Gwag:** Mae'r Clerc wedi cysylltu â Beca ynglŷn â'r taflenni, a phenderfynwyd drwy e-bost ddoe y byddent yn cael eu codi yn y cyfarfod mis yma. Ar ran Beca Roberts, mae Dafydd Roberts gyda'r taflenni, ac mae'r Cyngor wedi penderfynu eu rhannu a'u dosbarthu yn y gwahanol leoliadau.
Mae'r Clerc hefyd wedi clywed gan Swyddog Marchnata Partneriaeth Ogwen, ac mae honno wrthi'n paratoi negeseuon i'w rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

3.2 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** –Gofynnodd y Clerc am ddiweddariad ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yma. Y Clerc i ffonio Ian Morgan.

3.3 **Pecyn Budd Cymunedol Zip World:** Y Clerc wedi ail anfon y llythyr, ond hyd yma dim wedi clywed ymateb.

3.4 **Ffordd Tan Rhiw / Bro Sir Ifor –**Asesiad wedi cael i wneud, y clerc yn disgwyl am ymateb.

3.5 **Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)**– Asesiad wedi cael cwblhau, y clerc yn disgwyl am ymateb.

3.6 **Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai:** Cadarnhawyd bod yr asesiad ar y llwybr wedi'i gynnal, a bod y gwaith i'w wella bellach wedi'i gwblhau. Mae'r Cyngor yn falch bod y llwybr bellach yn fwy diogel ac yn llai garw, gan ei wneud yn haws i'w ddefnyddio. Bydd y Clerc yn gofyn am gadarnhad ynghylch y pren a sut y gellid trefnu i'r gymuned ei dderbyn.

3.7 **Cronfa Gwynedd Ni:** Mae'r Clerc eisoes wedi dechrau archebu rhai o'r adnoddau arae awyr agored gyda'r arian grant. Cytunwyd y bydd y Clerc yn gweinyddu'r prosiect hwn, oherwydd ei chysylltiad â'r ysgol, er mwyn osgoi trosglwyddo'r gwaith hwn i'r Clerc newydd. Cynhelir y gweithdai gyda'r plant ddiwedd mis Tachwedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod yn hapus i Momo Signs arwain ar greu ac ar osod yr arwyddion, yn ogystal â hwyluso'r gweithdai, gan fod y Clerc wedi cael anhawster i gysylltu â CARN, a oedd yn bartner gwreiddiol ar y cais grant. Mae Momo Signs hefyd yn gwmni lleol i Ddyffryn Ogwen.

3.8 **Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog:** Cofnodwyd bod y mater hwn wedi'i godi gyntaf dair blynedd yn ôl. Ceisiodd y Clerc gysylltu â Steffan Jones yn Cyngor Gwynedd er mwyn cael safbwynt y Cyngor ar ddefnydd chwynladdwyr, ond ni dderbyniwyd ymateb. Y Clerc i ceisio eto.

3.9 **Gordyfiant, Mynydd Llandygai:** Nodwyd bod gordyfiant yn tyfu allan i'r ffordd ym Mynydd Llandygai. Gan fod hyn yn fater o fewn cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd, cysylltodd y Clerc ag Adran Priffyrdd. Cafwyd ymateb yn dweud y byddai hyn yn cael ei ystyried, ond ni chafwyd manylion ynghylch pa gamau penodol a gymerwyd neu y penderfynwyd.

3.10 **Felin Hen – Dŵr yn Hel:** Cofnodwyd bod dŵr yn cronni ar waelod Felin Hen, gan greu sefyllfa beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Hysbyswyd Cyngor Gwynedd, ac fe dderbyniwyd ymateb yn nodi y byddai'r mater yn cael ei ystyried, ond nid oedd manylion ynghylch y camau gweithredol a gymerwyd.

3.11 **Llinellau Gwyn, Mynydd Llandygai:** Nodwyd bod angen ail-beintio'r llinellau gwyn ym Mynydd Llandygai. Cysylltwyd â'r Adran Briffyrdd, ac fe gafwyd ymateb yn dweud y byddai'r sefyllfa'n cael ei ystyried, ond nid oes gwybodaeth ynghylch beth a wnaethpwyd yn benodol.

3.12 **Cytundeb To gyda Ynni Ogwen – Paneli Haul Canolfan Tregarth:** Cafodd hyn ei ystyried, a chyflwynwyd y newidiadau a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor i Dafydd Meurig. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl cael llofnod y Cyngor cyn 30 Medi, felly caiff hyn ei ailystyried ymhen chwe mis.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2025'

**4.1 Cwyn, Terfyn Cyflymder yr Ocar -** Trafodwyd hyn, a chytunwyd bod 60mya yn ormod ar gyfer y ffordd hon, gan ystyried bod ffyrdd eraill sy'n arwain at Fynydd Llandygai, ac yn Fynydd Llandygai ei hun, bellach wedi'u gosod ar 20mya. Ystyriwyd y posibilrwydd y bydd hyn yn cael ei ailystyried oherwydd y newidiadau yn y gyfraith ynghylch terfynau 20mya yng Nghymru. Cytunwyd y dylai'r clerc anfon e-bost at Gyngor Gwynedd yn nodi pryderon y cyngor a'r trigolion.

**4.2 Llwybr 67 / Twll Pistyll / Gravel Lane -** Derbyniwyd gohebiaeth gan Julian Johnson ynghylch cyflwr Llwybr Troed 67 (Hawliau Tramwy / Twll Pistyll / Gravel Lane), gan gynnwys pryderon am dyfiant, wyneb llithrig, a draeniau wedi'u blocio. Trafodwyd y mater gan y Cyngor Cymuned, a theimlwyd mai'r cam mwyaf priodol fyddai cyfeirio'r mater at Dafydd Meurig, sydd yn gynghorydd sir ardal Llanllechid ac sydd â chysylltiad da â'r Cyngor Cymuned ar faterion tebyg.

Nodwyd hefyd fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi bod yn ymgysylltu ar y pwnc, ac felly teimlwyd efallai nad yw'r mater hwn o fewn cylch cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor Cymuned, yn enwedig os nad yw Cyngor Gwynedd yn ystyried y sefyllfa'n fater brys nac o arwyddocâd sylweddol. Mae'r Clerc yn aros am ymateb pellach gan Dafydd Meurig.

**4.3 Adborth i Holiadur Cynghorau Cymuned a Thref – Gwasanaethau ac Ymholiadau-** Trafodwyd yr holiadur, yn gyffredinol, rydym yn gwerthfawrogi cydweithio gyda Chyngor Gwynedd, ond mae profiadau diweddar yn dangos sawl mater i'w gwella:

Yn aml, nid oes ymateb am wythnosau neu fisoedd ar ôl cyflwyno ymholiad.

Pan ddaw ymateb, mae'n aml yn cynnwys cod neu rif cyfeirnod nad yw'n cyfateb i unrhyw beth yn y gohebiaeth wreiddiol, gan wneud hi'n anodd gwybod pa faterion sydd wedi'u datrys.

Byddai'n ddefnyddiol cael cadarnhad clir o dderbyn ymholiad gyda chyfeirnod unigryw a diweddariadau rheolaidd ar gynnydd. Credwn y byddai hyn yn gwneud y broses yn fwy tryloyw ac yn gwella'r berthynas waith gyda Chyngor Gwynedd.

**5. Gwaith y mis – Dim**

**6. Adroddiad Cynrychiolwyr – Dim.**

**7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**7.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Plum Products Ltd | Adnoddau Chwarae (Grant Gwynedd Ni) | £323.90 |
| Hope Education | Adnoddau Chwarae (Grant Gwynedd Ni) | £211.19 |

**9. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C25/0003/16/DT** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Codi 3 boeler biomas ( cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C25/0048/16/CR** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, Mynydd Llandygai<br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0042/16/LL** | Parth 4 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Bwriad i godi 4 uned ddiwydiannol o fewn un adeilad ynghyd a ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau |
| **C24/0934/16/LL** | Uned Porth Penrhyn, Bangor<br>Caniatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0242/16/DT** | Bodfeurig Farm Cottage, Sling, Tregarth, Bangor, LL57 4RL. Gosod ty gwydr ac ystafell ardd o fewn gardd yr eiddo.<br>**Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0319/16/DT** | 22 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AH. Estyniad llawr cyntaf cefn.<br>**Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0392/16/DT** | Isnant, 3 Rhes Groes, Sling, Gwynedd, LL57 4RG<br>Bwriad: Dymchwel adeilad allanol presennol sydd wedi'i ddifrodi 'n rhannol. Adeiladu adeilad allanol newydd yn lle'r un gwreiddiol ynghyd a gwaith tirlunio a garddio:<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda Amodau |
| **C25/0487/16/**DT | Ffynnon Bach, Sling, Bangor, Gwynedd, LL57 4PA<br>Bwriad: Adeiladu caban gardd i'w ddefnyddio fel atodiad i'r prif dŷ. Caban i'w ddefnyddio fel atodiad i'r prif dŷ yn unig, nid ar gyfer llety rhent.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda Amodau |
| **C25/0490/16/DT** | Tan Y Bryn, Santes Ann, Mynydd Llandygai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BQ Bwriad: Estyniadau unllawr ar ochr yr annedd a chodi porth newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda Amodau |

**10. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C25/0591/16/LL** | **Plot C4, Parc Bryn Cegin, Llandegai, LL57 4BG**<br>Bwriad: Caniatâd cynllunio ar gyfer codi dau adeilad swyddfa newydd, a chais ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad storio. |

## 11. Unrhyw fater brys arall – Dim

## 12. Crynodeb Llais Ogwen

Parc Y Bwlch, Mynydd Llandygai – gwelliannau'r llwybrau CNC